**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@siryfflint.gov.uk

At: Cyng Bill Crease (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Tina Claydon, David Coggins Cogan, Gladys Healey, Ian Hodge, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Billy Mullin, Vicky Perfect, Jason Shallcross ac Ant Turton
+1 Aelod o'r Gwir Annibynwyr

6 Rhagfyr 2024

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD HYBRID**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**DYDD IAU, 12FED RHAGFYR, 2024 10.00 AM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Gellir mynychu’r cyfarfod hwn naill ai wyneb yn wyneb yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint neu ar-lein.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o’r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o’r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

**1 PENODI CADEIRYDD**

**Pwrpas:** Yn ystod y cyfarfod 4 Rhagfyr 2024 penderfynodd y Cyngor mai'r Grŵp Annibynnol fydd yn cadeirio'r cyfarfod hwn. Hysbysir y Pwyllgor mai'r Cynghorydd Bill Crease yw Cadeirydd y Pwyllgor am weddill blwyddyn y Cyngor.

**2 PENODI IS-GADEIRYDD**

**Pwrpas:** Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.

**3 YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

**4 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori’r Aelodau yn unol a hynny.

**5 COFNODION** (Tudalennau 5 - 10)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 14 Tachwedd 2024.

**6 OLRHAIN GWEITHRED** (Tudalennau 11 - 14)

Adroddiad Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd -

**Pwrpas:** Rhoi gwybod i’r Pwyllgor o’r cynnydd yn erbyn camau gweithredu o’r cyfarfod blaenorol.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 15 - 22)

Adroddiad Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd -

**Pwrpas:** Ystyried y flaenraglen waith Pwyllgor Craffu & Trosolwg adnoddau corfforaethol.

**8 STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2025/26** (Tudalennau 23 - 38)

Adroddiad Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol

**Pwrpas:** Darparu’r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa cyllideb refeniw’r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 cyn cael Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol Cymru ar 11 Rhagfyr.

9 **MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2024/25 (MIS 7)** (Tudalennau 39 - 64)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol - Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol

**Pwrpas:** I gyflwyno Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2024/25 (Mis 7) ac amrywiant sylweddol i'r Aelodau.

10 **PARTH BUDDSODDI AR GYFER SIR Y FFLINT A WRECSAM** (Tudalennau 65 - 82)

Adroddiad Prif Weithredwr - Arweinydd y Cyngor

**Pwrpas:** Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y Parth Buddsoddi ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam.

11 **DIWEDDARIAD CANOL BLYWDDYN CYFLOGAETH A GWEITHLU** (Tudalennau 83 - 102)

Adroddiad Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Cyfundrefnol - Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol

**Pwrpas:** Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys diweddariadau strategol yn ogystal ag ystadegau chwarterol y gweithlu a dadansoddiad ohonynt.

12 **ADRODDIAD ARCHWILIO ASEDAU CYMUNEDOL A HAMDDEN** (Tudalennau 103 - 118)

Adroddiad Rheolwr Corfforaethol, Rhaglen Gyfalaf ac Asedau - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Trawsnewid ac Asedau

**Pwrpas:** Darparu diweddariad cynnydd am Adroddiad Archwilio Rheoli Asedau Cymunedol a Hamdden.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 15 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion sy'n ymwneud â materion cyflogaeth ac mae budd y cyhoedd wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, nes bydd y materion wedi'u datrys.

13 **RHAGLEN DRAWSNEWID** (Tudalennau 119 - 130)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Trawsnewid ac Asedau

**Pwrpas:** Mae'r Cyngor yn sefydlu rhaglen o brosiectau er mwyn adolygu ei arferion gweithio er mwyn arbed costau fel dewis amgen i doriadau gwasanaeth traddodiadol. Bydd Cynghorwyr yn penderfynu a gaiff prosiectau eu hychwanegu at y rhaglen neu beidio a byddant yn monitro lefel yr arbedion a wneir.

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiad yn ymwneud â materion ariannol Cambrian Aquatics ac mae budd y cyhoedd i gelu'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

14 **CAMBRIAN AQUATICS** (Tudalennau 131 - 138)

Adroddiad Rheolwr Corfforaethol, Rhaglen Gyfalaf ac Asedau - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Trawsnewid ac Asedau

**Pwrpas:** Cyflwyno adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Cambrian Aquatics.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***